cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Ad-dalu'ch benthyciad myfyrwyr 2016/17

Sut y caiff ad-daliadau eu cyfrifo

Bydd arian yn cael ei dynnu o'ch cyflog os yw'ch incwm, cyn treth, yn uwch na throthwy'r DU. Y trothwyon cyfredol yw £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn. Caiff didyniad ei wneud am fenthyciad myfyrwyr hyd yn oed os na fyddwch yn ennill £21,000 y flwyddyn, ond os bydd eich tâl yn uwch na'r trothwy wythnosol neu fisol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn, er enghraifft os ydych yn gwneud gwaith goramser neu'n cael bonws.

Byddwch yn talu 9% o'ch incwm dros y trothwy. Os ydych yn cael eich talu bob mis, er enghraifft, ac os ydych yn ennill £2,083 cyn treth, byddwch yn ad-dalu 9% o'r gwahaniaeth rhwng y swm yr enilloch a swm y trothwy. Gweler y tabl isod am rai enghreifftiau.

Os yw'ch incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd swm eich ad-daliadau yn newid yn awtomatig er mwyn adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Cyflog misol	Ad-daliad misol
£21,000	£1,750	£0
£25,000	£2,083	£30
£30,000	£2,500	£67
£36,000	£3,000	£112

Gallai'r trothwyon newid.

Ffeithiau am ad-dalu

- Bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciadau fis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, a dim ond os bydd eich incwm dros £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn.
- Os ydych yn gyflogedig, bydd eich cyflogwr yn cymryd eich ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol, ynghyd â threth ac Yswiriant Gwladol.
- Mae ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm trethadwy, nid ar y swm y byddwch yn ei fenthyca.
- Codir llog o'r dyddiad pan fyddwn yn gwneud eich taliad cyntaf nes y bydd eich benthyciad yn cael ei dalu yn llawn. Am y cyfraddau llog diweddaraf, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**
- Os ydych yn bwriadu teithio neu weithio mewn gwlad dramor am dros dri mis ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni.
- Bydd unrhyw fenthyciad nad yw wedi ei ad-dalu 30 o flynyddoedd ar ôl yr adeg pan oedd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau yn cael ei ddileu.

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

SFW/REPQG/1617/D/A

Cyngor defnyddiol

Dylech osod hwn ar eich hysbysfwrdd neu'ch oergell

Beth, pryd a sut i ad-dalu

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru mewn addysg uwch yn y DU, trwy gyfrwng Cyllid Myfyrwyr Cymru. Pan ddaw'n amser i chi ad-dalu eich benthyciad myfyriwr, byddwch yn gwneud eich ad-daliadau i SLC.

Eich taith ad-dalu

1 **Dechrau gweithio**

Bydd disgwyl i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciad yn y mis Ebrill bedair blynedd wedi i chi ddechrau'ch cwrs neu'r mis Ebrill wedi i chi orffen neu adael eich cwrs, pa bynnag un sy'n dod gyntaf.

Dim ond pan fydd eich incwm dros £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn y byddwch yn dechrau ad-dalu.

2 **Bydd eich cyflogwr yn dweud wrth Gyllid a Thollau EM (HMRC) faint o fenthyciad myfyriwr ydych wedi'i ad-dalu**

Os ydych yn gyflogedig, bydd eich cyflogwr yn cymryd eich ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol, ynghyd â threth ac Yswiriant Gwladol.

Os byddwch yn stopio gweithio, bydd eich ad-daliadau yn stopio, nes i chi ddechrau gweithio unwaith eto a bydd swm eich incwm yn uwch na'r trothwy.

Os ydych yn hunangyflogedig neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynghylch ad-dalu, trowch at **www.studentloanrepayment.co.uk**

3 **Bydd HMRC yn rhoi gwybod i ni**

Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, bydd HMRC yn dweud wrthym faint ydych wedi'i ad-dalu a byddwn yn anfon datganiad atoch. Yn ogystal, byddant yn dweud wrth eich cyflogwr pryd i stopio cymryd ad-daliadau.

Canslo rhannol

Pan fyddwch yn dechrau talu ad-daliadau, gallai balans eich Benthyciad Cynhaliaeth gael ei ostwng gymaint â hyd at £1,500. Am ragor o wybodaeth, trowch at: **www.studentloanrepayment.co.uk**

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais, trowch at:

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

facebook/SFWales twitter/SF_Wales

youtube.com/SFWfilm

cyngor doeth am **GYLLID I FYFYRWYR**

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government